3 Hydref 2024

Ymgynghoriad ar y Cod Llywodraethu i Elusennau yn gosod y blaenoriaethau ar gyfer diweddaru'r Cod

Cyfradd boddhad o 95% o blith bron 5400 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad sy'n defnyddio'r Cod neu'n gyfarwydd ag ef

Yn ôl canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch diweddaru'r Cod Llywodraethu i Elusennau, mae 95% o bobl sy'n defnyddio'r Cod neu sy'n ddigon cyfarwydd ag ef i roi sylwadau yn fodlon â'r Cod. Mae 93% o'r ymatebwyr hyn yn credu bod y Cod yn glir ac yn deall beth sydd angen i elusennau ei wneud i roi'r Cod ar waith. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u dadansoddi ac wedi llywio'r blaenoriaethau ar gyfer y gwaith sydd ar droed i ddiweddaru'r Cod.

Derbyniodd y Grŵp Llywio sy'n gyfrifol am y Cod bron 500 o ymatebion i'w hymgynghoriad, gan gynnwys bron 400 sy'n defnyddio'r Cod neu'n gyfarwydd ag ef, ac maen nhw'n ddiolchgar tu hwnt i bawb a rannodd eu hadborth. Daeth yr ymatebion gan unigolion sy'n cynrychioli elusennau mawr, canolig a bach o bob math, cynghorwyr a gwasanaethau proffesiynol sy'n cefnogi elusennau, a phobl nad ydynt yn defnyddio'r Cod.

Nid yw'r Grŵp Llywio yn bwriadu codi tâl ar elusennau i ddefnyddio'r Cod. Mae'r grŵp yn cymryd ei gyfrifoldeb dros sicrhau cod cynaliadwy i'r sector o ddifrif, a bydd yn parhau i edrych ar yr holl opsiynau ar gyfer ei ymarferoldeb ariannol parhaus. Am y tro, blaenoriaeth y grŵp yw cyflwyno fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cod.

Mae'r lefelau boddhad ag egwyddorion y Cod yn uchel iawn, ond awgrymodd yr adborth mai'r egwyddor cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant oedd yr un mwyaf heriol i elusennau. Awgrymodd llawer o elusennau y gallai'r iaith a ddefnyddir yn y Cod fod yn fwy hygyrch, a nododd rhai ymatebwyr yr hoffent gael mwy o arweiniad a chymorth i roi'r Cod ar waith. Gwnaeth nifer sylweddol o'r ymatebion awgrymu y gellid cryfhau statws y Cod o fewn y sector.

Gwnaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd amlygu amrediad o heriau y mae elusennau yn eu hwynebu, gan gynnwys gwydnwch ariannol, rheoli risg, ymddygiadau ystafell fwrdd, cynllunio ar gyfer olyniaeth ymddiriedolwyr, seiber-risg a thrafodaethau am faterion cymdeithasol sy'n rhannu pobl.

Y cam nesaf yn y gwaith ar ddiweddaru'r Cod fydd cyfres o grwpiau ffocws. Mae'r themâu blaenoriaethol ar gyfer y rhain wedi'u pennu drwy ddadansoddi'r adborth o'r ymgynghoriad, ac yn cynnwys:

- Teilwra'r Cod a'i ganllawiau ymhellach i elusennau o wahanol faint ac ar wahanol gamau o'u taith datblygu llywodraethiant
- Cynorthwyo elusennau i roi'r Cod ar waith drwy roi arweiniad a blaenoriaethu
- Egluro a oes angen unrhyw ychwanegiadau i'r Cod

- Edrych ar fuddion y Cod a chodi ei broffil yn y sector.

Dywedodd Radojka Miljevic, Cadeirydd Annibynnol Grŵp Llywio'r Cod a Phartner yn Campbell Tickell:
"Mae'n galonogol tu hwnt i weld cymaint o bobl yn cymryd rhan yn ein hymgynghoriad ac i glywed bod y Cod Llywodraethu i Elusennau yn adnodd mor werthfawr i gymaint o elusennau. Rydym wedi derbyn swm enfawr o adborth manwl a gwerthfawr tu hwnt, ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl rai hynny a ymatebodd. Byddwn yn parhau i wrando ar elusennau ac ymgysylltu â nhw yn ystod cam nesaf ein gwaith ar ddiweddaru'r Cod."

Nodiadau i Olygyddion

1. Cod gwirfoddol gan y sector, ar gyfer y sector yw'r Cod Llywodraethu i Elusennau a'i nod yw ceisio cefnogi arferion llywodraethu da mewn elusennau.
2. Caiff y Cod Llywodraethu i Elusennau ei ddatblygu a'i gynnal gan grŵp llywio wedi'i lunio o gyrff ymbarél sy'n hyrwyddo llywodraethiant da yn y sector. Cadeirydd annibynnol y grŵp llywio yw Radojka Miljevic. Yr aelod-fudiadau yw Cymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol (ACEVO), Cymdeithas y Cadeiryddion, Sefydliad Llywodraethu Siartredig y DU ac Iwerddon, Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).